OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 No. 1215

Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018

RHAN 4

CARCASAU MOCH

Esemptiad i weithredwyr moch ar raddfa fach

12.—(1) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i weithredwr lladd-dy cymeradwy lle y mae llai na 500 o foch glân yn cael eu cigydda bob wythnos, ar gyfartaledd dros flwyddyn.

(2) Nid oes dim ym mharagraff (1) sy'n rhwystro'r Rheoliadau hyn rhag cael eu cymhwyso at weithredwr mewn perthynas â charcasau buchol, os oes anifeiliaid buchol llawn-dwf hefyd yn cael eu cigydda yn lladd-dy'r gweithredwr hwnnw.

Awdurdod cymwys: carcasau moch

13.—(1) Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys at ddibenion y canlynol—

(a) Erthygl 7(4) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (dosbarthu a phwyso);

(b) Erthygl 12(2)(b) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (darpariaethau ychwanegol ar ddosbarthu drwy dechnegau graddio awtomataidd);

(c) Erthyglau 13 a 14 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn ac Erthygl 14 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (hysbysu prisiau'r farchnad a chyfrifo pris cyfartalog pob dosbarth);

(d) Erthygl 17(2) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (darpariaethau atodol ar hysbysu prisiau marchnad carcasau);

(e) Erthygl 4(1) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (gwneud a chadw adroddiadau ar gyfer gwiriadau yn y fan a'r lle).

(2) Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am y canlynol—

(a) Erthygl 11 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (awdurdodi dulliau graddio awtomataidd);

(b) Erthygl 25 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (hysbysu'r Comisiwn);

(c) gwiriadau yn y fan a'r lle, yn unol â'r disgrifiad o "on-the-spot checks" yn Erthyglau 2 a 3 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn.

Dulliau graddio awdurdodedig

14.—(1) Rhaid ymgymryd â dosbarthu carcasau moch mewn lladd-dy cymeradwy—

(a) drwy ddefnyddio dull graddio awdurdodedig y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 11 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn; a

(b) drwy ddefnyddio technegau graddio y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 11 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn a'r rheiny'n cael eu gweithredu gan bersonél cymwys.

(2) Yn y rheoliad hwn, mae "personél cymwys" yn cyfeirio at unrhyw berson sy'n hyfedr wrth ddefnyddio'r offer a'r technegau graddio sy'n cael eu gweithredu gan y person hwnnw.

Cofnodion yn lle marcio

15. Caiff gweithredwr neu'r person sy'n gyfrifol am ddosbarthu moch, yn hytrach na marcio carcas yn unol â'r darpariaethau moch Ewropeaidd a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 2, lunio cofnod ar gyfer y carcas hwnnw sy'n cynnwys o leiaf—

(a) modd i adnabod y carcas yn unigol drwy unrhyw ddull nad oes modd ei newid;

(b) pwysau cynnes y carcas; ac

(c) canlyniad y dosbarthiad.

Cofnodion: carcasau moch

16.—(1) Rhaid i weithredwr lladd-dy cymeradwy gadw cofnod o'r manylion a bennir yn Atodlen 4 ynglŷn â phob carcas mochyn a ddosberthir yn y lladd-dy hwnnw.

(2) Rhaid i'r gweithredwr ddal gafael ar bob cofnod am gyfnod o 12 mis o ddiwedd y flwyddyn galendr y mae'r cofnod yn berthynol iddi.